**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref qA1411587

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

27 Tachwedd 2020

Annwyl Mick

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020. Bwriadwyd gwneud y Gorchymyn hwn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2020.

Ni chafodd y Gorchymyn ei wneud yn ôl y disgwyl ar 18 Tachwedd cyn y dyddiad y bwriadwyd iddo ddod i rym, sef 19 Tachwedd. Yn hytrach, cafodd y Gorchymyn ei wneud am 15:19 ar 19 Tachwedd, gan olygu bod y Gorchymyn yn cael ychydig iawn o effaith ôl-weithredol, oherwydd iddo ddod i rym ar ddechrau 19 Tachwedd.

Diben y Gorchymyn yw eithrio treuliau sy'n ymwneud â chyfieithu a threuliau sy'n gysylltiedig ag anableddau o'r terfyn uchaf statudol ar gyfer gwariant ar etholiadau, er mwyn sicrhau tegwch i bob ymgeisydd mewn etholiad. Bydd hyn yn sicrhau tegwch i unigolion sydd ag anableddau ac yn eu galluogi i ymgeisio mewn etholiad.

O ystyried bod y pleidleisiau hynny a gafodd eu gohirio yn y gorffennol oherwydd y coronafeirws wedi cael eu hail-drefnu i gael eu cynnal o 1 Chwefror ymlaen, roedd yn bwysig bod y Gorchymyn yn cael ei wneud, hyd yn oed gydag ychydig iawn o effaith ôl-weithredol, er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn deall pa dreuliau fydd yn cyfrif tuag at y terfyn treuliau. Drwy wneud y Gorchymyn yn awr, fel y cymeradwywyd gan y Senedd, gellir cyhoeddi Canllawiau gan y Comisiwn Etholiadol mewn modd amserol. Byddai llunio a gosod Gorchymyn newydd i'r Cyfarfod Llawn ei ystyried wedi achosi oedi, tan ddiwedd mis Rhagfyr, cyn y gellid bod wedi cyhoeddi canllawiau o'r fath. O ganlyniad, byddai unigolion

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ag anableddau wedi dewis peidio ag ymgeisio pe na fyddent yn gallu gweld yn union pa dreuliau y gall fod rhaid iddynt eu hysgwyddo.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government